O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 486 (Cy. 81)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Aberhonddu i Lys-wen, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012

Gwnaed	*23 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*5 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Aberhonddu i Lys-wen, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r Gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 rhwng Aberhonddu a Llys-wen yn Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A438 ym Mhontybat hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A479 yn Llys-wen.